OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 126

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006

## RHAN 10

TALIADAU

**Gordalu**

**49.**—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill unrhyw ordaliad grant neu fenthyciad at ffioedd oddi wrth yr awdurdod academaidd.

(2) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn iddo, rhaid i fyfyriwr cymwys ad-dalu unrhyw swm a dalwyd iddo o dan Ran 6 neu 7 sydd am ba reswm bynnag yn fwy na swm y cymorth y mae gan y myfyriwr hawlogaeth i'w gael o dan Ran 6 neu 7.

(3) Caniateir i unrhyw ordaliad ar gyfer unrhyw grant o dan Ran 6 gael ei adennill ym mha un neu fwy bynnag o'r ffyrdd canlynol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu eu bod yn briodol o dan yr holl amgylchiadau—

(a) drwy dynnu'r gordaliad o unrhyw fath o grant sy'n daladwy i'r myfyriwr o dro i dro yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o'r Ddeddf;

(b) drwy gymryd unrhyw gamau eraill i adennill gordaliad sydd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(4) Caniateir i unrhyw ordaliad benthyciad at gostau byw mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd gael ei adennill os yw'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn—

(a) bod y gordaliad yn deillio o fethiant gan y myfyriwr i roi yn ddi-oed wybodaeth a allai effeithio ar a oes ganddo hawl i gael benthyciad neu beidio neu ar swm y benthyciad y mae ganddo hawl i'w gael; neu

(b) bod unrhyw wybodaeth y mae'r myfyriwr wedi'i rhoi yn anghywir o ran manylyn perthnasol; neu

(c) bod y myfyriwr wedi methu â rhoi gwybodaeth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu ei bod yn berthnasol yng nghyd-destun adennill y benthyciad.

(5) Os oes gordaliad benthyciad at gostau byw yn adenilladwy yn unol â pharagraff (4), caniateir ei adennill ym mha un neu fwy bynnag o'r ffyrdd canlynol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu eu bod yn briodol o dan yr holl amgylchiadau—

(a) drwy dynnu'r gordaliad o swm unrhyw fenthyciad sy'n daladwy i'r myfyriwr o dro i dro yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o'r Ddeddf;

(b) drwy gymryd unrhyw gamau eraill i adennill gordaliad sydd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(6) Os cafwyd gordaliad benthyciad at gostau byw nad yw'n adenilladwy o dan baragraff (4), caiff y Cynulliad Cenedlaethol dynnu'r gordaliad o swm unrhyw fenthyciad sy'n daladwy i'r myfyriwr o dro i dro yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o'r Ddeddf.